**Gwybodaeth am fod yn aelod lleyg o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Sir y Fflint**

Mae'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 fod gan y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru, Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys aelodau lleyg.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ers blynyddoedd. Ers 2020, mae 8 Cynghorydd a dau aelod lleyg ar y Pwyllgor. Mae Aelodau Lleyg yn cyfrannu'n helaeth at waith y Pwyllgor ac, yn seiliedig ar y cyfraniad cadarnhaol y mae'r aelod lleyg yn ei wneud, mae'r Cyngor yn ceisio recriwtio aelod lleyg ychwanegol.

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:-

a) Adolygu a chraffu materion ariannol yr awdurdod;
b) Llunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod;
c) Adolygu ac asesu prosesau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol a threfniadau gwrth-dwyll a llygredigaeth yr awdurdod;
d) Llunio adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
e) Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol/allanol yr awdurdod;
f) Gwella (ond nid yn uniongyrchol) strategaeth archwilio mewnol, cynllunio a monitro perfformiad;
g) Derbyn yr adroddiad blynyddol gan y Rheolwr Archwilio Mewnol;
h) Adolygu hunanasesiad perfformiad blynyddol ac ymatebion drafft i unrhyw adroddiadau panel;
i) Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ddelio a chwynion yn effeithiol;
j) Gwneud adroddiadau ac argymhellion o ran gallu'r awdurdod i ddelio'n effeithiol â chwynion; ac
k) Adolygu'r datganiadau ariannol a gaiff eu paratoi gan yr awdurdod.

Cefnogir y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan uwch swyddogion y Cyngor sy'n mynychu i gyflwyno adroddiadau ac i ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor. Mae chwe cyfarfod y Pwyllgor bob blwyddyn. Anfonir y rhaglenni a'r adroddiadau i'w hystyried yn y cyfarfod at aelodau tuag wythnos cyn y cyfarfod. Bydd gan yr aelod lleyg yr hawl i hawlio £105 am bob cyfarfod hanner diwrnod a fynychir. Os bydd cyfarfod yn para dros 4 awr, ceir taliad o £210. Bydd cyfarfodydd yn y dyfodol yn hybrid er mwyn galluogi presenoldeb yn bersonol ac o bell.

Mae rhaglenni ac adroddiadau cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio ar gael ar wefan y Cyngor (www.siryfflint.gov.uk). Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn hyfforddiant cynefino.

Os hoffech chi sgwrs am y rôl, ffoniwch Gary Ferguson ar 01352 702271 neu Gareth Owens ar 01352 702344 neu Lisa Brownbill 01352 702231.

**CYLCHRED CYFARFODYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2021
Dydd Mercher, 26 Ionawr 2022
Dydd Mercher, 23 Mawrth 2022

Bydd y dyddiadau cyfarfod yn cael eu cadarnhau ar gyfer Mehefin 2022, Gorffennaf 2022 a Medi 2022.

Bydd pob cyfarfod yn dechrau am 10.00. Ar gyfer rhai cyfarfodydd, bydd sesiynau hyfforddiant/briffio yn cael eu cynnal cyn y cyfarfod, bydd y rhain yn dechrau am 9.30am.